

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 5ed 2019 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Eifion Davies, Maldwyn Jones, Rita Jones, Gary Thomas, Meilir Jones, Iolo Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gethin Morris, Gwenda Morris, Dewi Pritchard a Gwenda Evans.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror a chafwyd yn gywir.

## **ii) Datgan Buddiant.**

Nodwyd y buddiant perthnasol gyda'r ceisiadau cynllunio ac ariannol isod.

## **iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

### **a) Graeanu ffyrdd a biniau halen.**

Adroddodd y clerch fod y Cyng. Elwyn Edwards a hithau wedi cwrdd gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod y cwynion a derbyniwyd am y diffyg graean ar y ffyrdd yn yr ystod y tywydd garw yn ddiweddar a'u penderfyniad i beidio llenwi'r biniau halen. Roedd y swyddogion yn cydnabod eu cyfrifoldeb i ddiogelu'r cyhoedd a oedd yn defnyddio'r ffyrdd a chytunwyd i sicrhau fod y ffyrdd cefn yn cael eu graeanu yn ddyddiol yn ystod tywydd garw. Cytunwyd i gwrdd yn ddiweddarach yn y flwyddyn i adolygu'r sefyllfa. Nid oedd posib iddynt newid eu meddyliau am lenwi'r biniau halen. Cytunwyd i drafod y mater unwaith eto ar ol i'r clerch ail gyfarfod a swyddogion Cyngor Gwynedd.

### **b) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-**

- i) Clirio/agor ffosydd ger Coed Bedo, Cefnddwysarn a chyffordd Tŷ Tan Dderwen, Glanrafon - roedd y gweithlu wedi cael cyfarwyddiadau i lanhau'r ffosydd.
- ii) Tarmac sgwâr pentref Llandderfel – roedd arwyddion 'slippery road' wedi cael ei gosod dros dro ac mi fyddai'r Arolygwr Priffyrdd yn cadw golwg ar y safle hefyd.
- iii) Cais i osod arwydd yn rhybuddio loriau mawr i beidio defnyddio'r ffordd fach heibio'r Bryn Tirion, Llandderfel - roedd y cais wedi cael ei anfon ymlaen i'r swyddfa yng Nghaernarfon.
- iv) Ysbwriel yn yr encilfa ym Methel, A494 - roedd y gwyn wedi cael ei gyfeirio at y Warden Gorfodaeth i drefnu i'w glirio.
- v) Tynnu'r polion amserlen bws o flaen y lloches yng Nghefnddwysarn i lawr - roedd y cais wedi cael ei gyfeirio at sylw'r rheolwr cludiant yng Nghaernarfon.

## **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### **a) Partneriaeth Penllyn/ Canolfan Henblas.**

- i) Gwybodaeth am y sesiynau roedd Gwynedd Digidol yn ei gynnal yn y ganolfan i gynorthwyo'r cyhoedd gyda'i ffonau symudol ayyb.
- ii) Derbyniwyd cais am gefnogaeth i'r pwyllgor geisio am grant Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi cyd-drefniadau rhwng y cynghorau. Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi eu cais.

### **b) Cyngor Gwynedd.**

- i) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn - dogfennau ymgynghori cyhoeddus 'Canllawiau Cynllunio Atodol: Ail-adeiladu Tai a Throsi Adeiladau yng Nghefn Gwlad ac Ymrwymadau Cynllunio'.
- ii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd ar gyfer mis Mawrth.
- iii) Adolygiad Cludiant Cyhoeddus - Dosbarthwyd copïau o'r holiadur a manylion sut i'w gwblhau ar-lein.

### **c) Amrywiol.**

- i) Parc Cenedlaethol – Cadarnhad fod Cynllun Datblygu Eryri (2016-31) wedi cael ei fabwysiadu.
- ii) Cyngor Iechyd Cymuned – 'Arolwg Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu 2019'. Dosbarthwyd copïau o'r holiadur a manylion sut i'w gwblhau ar-lein.

iii) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - cafwyd cadarnhad fod y Panel wedi mabwysiadu'r 'Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019/20'. Cafwyd braslun o'r argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Cytunwyd i fabwysiadu'r argymhellion a oedd yn orfodol a nodwyd fod angen i'r cynghorwyr hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

#### **v) Ceisiadau Cynllunio.**

i) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

C19/0107/04/YA – Adeiladu sied amaethyddol. Tir Hendre Bach, Cwmtirmynach (y clerc yn datgan diddordeb).

C19/0103/04/LL – Cais ol-weithredol i gadw adeilad amaethyddol a menage. Bryn Awelon, Llanfor.

#### **vi) Materion Ariannol.**

i) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

ii) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- 1) Cyflog a chostau'r clerc (Ionawr i Fawrth)
- 2) CTHEM (TWE)
- 3) Ciltalgarth (torri glaswellt ym mynwentydd Frongoch, Llanfor a Llandderfel)
- 4) Un Llais Cymru (tal aelodaeth)
- 5) Partneriaeth Penllyn (costau gweinyddol)
- 6) Neuadd Mynach (costau llogi)
- 7) Neuadd Sarnau (costau llogi)
- 8) Y Cyfnod (hysbyseb)
- 9) Craig Tree Services (torri coed mynwent Frongoch)

iii) Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu i'r mudiadau ac elusennau canlynol gan adael arian digonol tu cefn ar gyfer cyfri'r fynwent ac unrhyw wariant annisgwyl a all'i'r godi yn y flwyddyn ariannol nesaf:-

- 1) Neuadd Sarnau - £450 (Eifion Davies yn datgan buddiant)
- 2) Neuadd Mynach - £450
- 3) Neuadd Llandderfel - £450 (Maldwyn Jones yn datgan diddordeb)
- 4) Ysgol Bro Tryweryn - £250
- 5) Ysgol Ffridd y Llyn - £250
- 6) Ysgol Y Berwyn - £100.00
- 7) Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel - £100
- 8) CFFI Meirionnydd - £200 (Eifion Davies yn datgan buddiant)
- 9) Urdd Gobaith Cymru - Cylch Penllyn - £100
- 10) Cantref - £100 (Eilir Rowlands yn datgan buddiant)
- 11) Sioe CFFI Cwmtirmynach - £100
- 12) Hosbis Tŷ'r Eos - £100
- 13) Ambiwylans Awyr Cymru -£100
- 14) Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel - £100

#### **vii) Materion Lleol**

Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i adrannau perthnasol:-

i) Mynegwyd pryder fod un o'r coed, ar yr ochr chwith rhwng Ty'n Ddol a'r Lodge, Llandderfel yn gwyro i'r ffordd ac angen sylw.

ii) Wal o flaen lloches bws Cefnddwysarn – roedd rhai o gerrig y wal wedi disgyn.

iii) Cyflwr yr A494 yn enwedig o gyrion tref Y Bala i gyfeiriad Cefnddwysarn - nifer o dyllau wedi ymddangos yn y ffordd.

**Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar Nos Fawrth, Mai 7fed yn Neuadd Sarnau am 7.30 y.h.**

